OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aber-arth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021

*Gwnaed* — *29 Mehefin 2021*

*Yn dod i rym* — *5 Gorffennaf 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aber-arth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Gorffennaf 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 5 Gorffennaf 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A487 Trunk Road (Aberarth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021

*Made* — *29 June 2021*

*Coming into force* — *5 July 2021*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A487 Trunk Road (Aberarth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and this Order comes into force on 5 July 2021.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith")* means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 5 July 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4577 hyd at bwynt 400 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno yn Aber-arth, Ceredigion.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mehefin 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road that extends from a point 500 metres south-west of the centre-point of its junction with the B4577 to a point 400 metres north-east of the centre-point of that junction at Aberarth, Ceredigion.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 29 June 2021

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government